

ARDAL GADWRAETH YNYS BŶR



ARFARNIAD A CHYNLLUN RHEOLI

Canllawiau Cynllunio Atodol

**Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Dyddiad Cymeradwyo ar gyfer Ymgynghori: 15 Medi 2021
Dyddiad Mabwysiadu:**


Cyflwyniad	2
Cyd-destun y Polisi Cynllunio	4
Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg.....	5
Dadansoddiad o Gymeriad	9
Ardal Cymeriad 1 – y Fferm a'r Priordy Canoloesol	10
Ardal Cymeriad 2 - Yr Abaty a Grîn y Pentref.....	15
Ardal Cymeriad 3 – Ardaloedd Pellennig.....	18
Deunyddiau adeiladu	21
Gosodiad y Dirwedd a'r Morlun	25
.....	Error! Bookmark not defined.
Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli	29
Atodiad A: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol	40

Cyflwyniad

1. Roedd cyflwyno Ardaloedd Cadwraeth yn deillio o'r ymwybyddiaeth gynyddol y gallai ardaloedd cyfan fod o ddiddordeb a gwerth yn ogystal ag adeiladau a choed unigol. Fe'u cyflwynwyd ym 1967 ac maent bellach yn dod o dan Ddeddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol bennu a dynodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad fel Ardaloedd Cadwraeth.
2. Dynodwyd rhan o Ynys Bŷr yn Ardal Gadwraeth yn 1997. Ar ôl eu dynodi, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth rhag datblygiad niweidiol, fel yr adlewyrchir yn y polisiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Mae dyletswydd arnynt hefyd i adolygu ffiniau a nodi mesurau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth.

Gweler Map 1 - Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr

3. Yn ychwanegol at y cyfyngiadau cyffredinol ar ddatblygiad a ganiateir ar draws y Parc Cenedlaethol, mae canlyniadau dynodiad Ardal Gadwraeth yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad i ddymchwel rhai adeiladau/nodweddion ffiniau a'r gofyniad i hysbysu'r Awdurdod o gynigion sy'n effeithio ar rai coed.
4. Pwrpas arfarniad Ardal Gadwraeth yw diffinio rhinweddau'r ardal sy'n ei gwneud yn deilwng o statws Ardal Gadwraeth. Bydd hyn yn rhoi sail gadarn ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu ac ar gyfer mentrau gwella. Bydd hefyd yn galluogi datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol, lle gellir ystyried cynllunio a cheisiadau a chynigion eraill ar gyfer newid.
5. Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel a ganlyn:-
 - Arfarniad o'r nodweddion amrywiol sy'n rhoi ei ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig i Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr, y rhagdybiaeth yw eu bod yn cael eu cadw neu eu gwella fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.
 - Cynllun rheoli yn nodi cynigion a all wella cymeriad ac ymddangosiad Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr.
6. Daw'r rhanddeiliaid perthnasol o'r sectorau preifat a chyhoeddus a bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan y ddau.



Ynys Byr
Ardal Gadwraeth
Dynodwyd 1997
MAPIAU 1

- Ardal Gadwraeth/Ardaloddi Cymeriad
- Adoladau Rhestrddg
- Gorchymyn Cadw Codi/Codi sy'n bwyg i'r heolad
- Henebion Rhestrddg
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Adoladau Tirod
- Adoladau Tmri Postff
- Cwrtellu/ffynfadau Allweddol
- Ardaloddi Agored Hantodol
- Cyfle i wella'r Maengwrt/cwrt/ffynfadau seipau
- Cyfle i Wella'r Ardal
- Cyfle i Wella Nodwddion yn y Mawr Cyfodddus

Grwydd gwn / Created by: Philip Jones (2/3/2023)
 Graddfa / Scale: 1:6,037
 © 2023 ym y Gwrn a haelau mawr dda. Arddg Orllewin / © Crown copyright and database rights. Ordnance Survey 100022314, 2023.



Cyd-destun y Polisi Cynllunio

7. Mae Atodiad A i'r Canllawiau hyn yn nodi crynodeb o'r ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae Polisi 8 Rhinweddau Arbennig y Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer amddiffyn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Paratoir y canllaw hwn i gefnogi'r polisi hwnnw yn benodol maen prawf b) sy'n ceisio sicrhau na chollir hunaniaeth a chymeriad trefi a phentrefi.

Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg

8. Mae'r enw Cymraeg, yn deillio o ynys Pyro, yn ôl pob tebyg ar ôl y mynach cyntaf i fyw arni. Mae hyn, ynghyd â'r heneb Gristnogol Gynnar arysgrifedig o'r seithfed ganrif yn Eglwys Sant Illtyd a thystiolaeth o grochenwaith Môr y Canoldir a fewnforiwyd o'r bumed/chweched ganrif, yn awgrymu'n gryf safle mynachaid yn dyddio cyn y goncwest. Daw'r enw Seisnig o darddiad Llychlynnaidd, fel cymaint o ynysoedd a phentiroedd arfordir Sir Benfro (e.e. Gosker, Sgomer, Sgogwm) ac mae'n cael ei gyfieithu fel "ynys oer".
9. Mae'r dystiolaeth archaeolegol gynharach yn dyddio'n ôl rhyw 12,000 o flynyddoedd i'r cyfnod Rhewlifol Hwyr. Yr adeg honno roedd Ynys Bŷr yn fryncyn isel mewn gwastatir sych ar Fôr Hafren. Mae offer fflint ac arfau fflint Palaeolithig (Hen Oes y Cerrig) wedi'u darganfod yn ogof Nana ac ogof y Crochenydd ar ochr ddwyreiniol yr ynys. Mae safleoedd o'r fath yn brin iawn ym Mhrydain ac mae'r ddwy ogof wedi'u dynodi'n Henebion Cofrestredig.
10. Cododd lefel y môr tua 10,000 o flynyddoedd yn ôl gan greu Ynys Bŷr. O tua'r adeg honno mae tystiolaeth helaeth o feddiannaeth Fesolithig (Canol Oes y Cerrig) ar draws yr ynys sy'n cynnwys y safle gweithio flint cofrestredig yng Nghraig Golau Dydd. Mae tystiolaeth o feddiannaeth gynhanesyddol yr ynys yn parhau gyda nifer o ddarganfyddiadau o fflint, crochenwaith a metel yn dyddio o'r cyfnod Neolithig i'r Oes Haearn.
11. Roedd Ynys Bŷr, ynghyd â'r ardal o amgylch Dinbych-y-pysgod, Penalun a Maenorbŷr, o bwysigrwydd mawr yn ystod y cyfnod Cristnogol cynnar. Roedd Ynys Bŷr yn glas Celtaidd, neu gymuned grefyddol, ac mae'n debyg mai Pyro oedd ei Abad cyntaf. Y prif beth i oroesi o'r cyfnod hwn yw'r garreg gydag arysgrif gain, sydd bellach yn Eglwys Sant Illtyd, mae'n debyg ei fod yn dyddio o'r seithfed ganrif. Mae ei arysgrif Ogam yn ymwneud â Dubritius neu Dyfrig, a oedd yn gysylltiedig â Sant Illtyd a Sant Samson a wnaeth, yn ôl pob golwg, gysegru Samson yn Abad fel olynydd i Pyro. Ychwanegwyd arysgrif Lladin, yn ôl pob tebyg yn y nawfed ganrif, gyda chroesau endoredig ar y wyneb a'r ochr. Roedd cysegriad eglwys yr ynys i Dewi yn dynodi ei bod wedi'i lleoli ar y safle gwreiddiol, ond mae'r gwaith maen presennol yn hŷn. Mae arteffactau Cristnogol cynnar hefyd wedi'u cloddio ar yr ynys.
12. Yn 1113 rhoddodd y Goron Ynys Bŷr i Robert Fitzmartin, Arglwydd Cemaes, a'i pasiodd i'w fam Geva, a sefydlodd briordy newydd yno, a lywodraethwyd gan yr Abaty Urdd Tiron yn Llandudoch. Mae tystiolaeth ddogfennol, er ei bod yn brin, yn awgrymu na chyflawnodd Ynys Bŷr bwysigrwydd mawr erioed fel priordy, gyda byth mwy nag un mynach wedi'i gofnodi'n aros yno, yn ystod y ddeuddegfed ganrif nac ar adeg y Diddymiad.
13. Mae'r priordy sydd wedi goroesi sy'n cynnwys yr eglwys, gyda thair rhes o amgylch iard fach sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn awgrymu fod Ynys Bŷr ar y dechrau yn ffynnu, a'i fod yn ôl pob tebyg wedi dirywio adeg y Pla Du. Ar y llaw arall, gwnaeth ail-fodelu'r rhes ddwyreiniol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ddarparu tŷ neuadd ar y llawr cyntaf

ar ben is-grofft cromennog, yn debyg i enghreifftiau lleol. Mae presenoldeb tŷ o'r fath o fewn priordy yn anghyffredin ac yn groes i'r drefn fynachaid.

14. I'r gogledd o'r priordy ar hyd y nant fach roedd pyllau pysgod canoloesol a'r felin yd ganoloesol, pob un wedi'i newid yn sylweddol gan ddefnyddiau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.
15. Canolbwynt tebygol y gymuned leyg oedd i'r gogledd-ddwyrain, yng nghyffiniau Eglwys Dewi Sant, a achubwyd rhag defnydd amaethyddol ym 1838. Mae'r eglwys ei hun yn dyddio o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg gyda chynllun nodweddiadol o gorff a changell byr: i'r gogledd mae mynwent "cist" ganoloesol gynnar.
16. Ychydig a wyddys am fywyd canoloesol ar Ynys Bŷr. Roedd Giraldus Cambrensis, a anwyd ym Maenorbŷr gerllaw, yn feirniadol o'r ffaith bod mynachod Ynys Bŷr, fel mewn mannau eraill, yn byw ar eu pen eu hunain yn groes i orchmynion Pabaidd. Ym 1327 cofnodwyd tollau ar long yn cyrraedd Ynys Bŷr ac yn y flwyddyn honno rhoddwyd amddiffyniad brenhinol i'r Priordy. Cofnodwyd trethi a thollau ar longau yn 1390-91, a heb amheuaeth, amaethyddiaeth oedd y prif ddiwydiant ar yr adeg honno.
17. Nododd William o Gaerwrangon, yn 1478, fod deg ar hugain o dai ar Ynys Bŷr - nifer rhyfeddol o uchel, sy'n cael ei herio gan R. Howells. Yn 1536 diddymwyd y Priordy, ac ar yr adeg honno roedd yna naw o denantiaid ar Ynys Bŷr ac un mynach.
18. Ar ôl y diddymiad, cafodd yr Ynys ei phrydlesu i'r Bradshaws, a'i phasio i Walter Philpin yn tua 1600. Nododd yr hanesydd o oes Elisabeth, George Owen, fod "yr ynys yn ffrwythlon iawn ac yn cynhyrchu digon o yd" a bod wyth neu ddeg o aelwydydd arni. Fel yn y canol oesoedd mae'n amlwg bod cwningod yn parhau i fod yn nwydd gwerthfawr, tra bod y diwydiant penwaig hefyd o bwys mawr. Cofnodir tenantiaid ffermio amrywiol trwy'r ail ganrif ar bymtheg ac erbyn canol y ddeunawfed ganrif, dechreuwyd cau'r caeau â waliau. Nododd S. S. Banks yn ei gyfrol "*Excursion in Wales*" yn 1767 fod "y rhannau canol wedi'u ffensiō i gynhyrchu yd a phorfa...mae'r tu allan ym mhobman yn llawn stoc o gwningod".
19. Yn 1786, gwerthwyd Ynys Bŷr gan etifeddion teulu'r 'Williams' i Iarll Warwick; ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach fe werthodd ef yr ynys i Thomas Kynaston o Benfro am £3,000. Roedd Kynaston yn awyddus i weithio'r chwareli calchfaen ar yr ynys a hefyd i ddefnyddio'r tir ffrwythlon ar gyfer tyfu yd - yr oedd ei bris wedi codi yn ystod blynyddoedd Rhyfeloedd Napoleon - gan wella ffawd amaethyddiaeth yn sylweddol. Yn fuan ar ôl prynu'r ynys, adeiladodd Kynaston dŷ mawr â thalcendo (sydd wedi'i ddymchwel) yn ffinio â'r hen briordy. Dechreuodd Thomas, neu ei fab Cabot adeiladu'r adeiladau fferm presennol, tra agorwyd Chwarel High Cliff i allforio calchfaen (ar gyfer adeiladu a gwneud calch). Roedd poblogaeth yr ynys yn araf i dyfu fodd bynnag ac ym 1806, nododd Donovan, yn ei gyfrol "*Excursions through South Wales*", mai ychydig iawn o bobl oedd yn byw ar yr ynys a bod y tir mewn cyflwr gwael. Roedd cwningod yn doreithiog, roedd yna gymaint ohonynt ar yr ynys, fel bod gwerthu eu crwyn yn talu am hanner rhent blynyddol yr ynys.

20. Roedd gwelliannau amaethyddol ar y gweill erbyn 1811 pan nododd y Parchedig Syr Thomas Cullen fod "rhan o'r tir wedi'i amgáu'n ddrud iawn gyda waliau uchel iawn ac mae'n ymddangos ei bod wedi'i thrin yn dda". Fodd bynnag, ar ôl Rhyfeloedd Napoleon, gostyngodd prisiau yd - roedd hyn ynghyd â chyfres o dymhorau gwlyb dros ben yn golygu dirywiad mewn amaethyddiaeth. Bu farw Thomas Kynaston yn 1812 ac fe'i holynwyd gan ei fab Cabot, a ehangodd y chwarel a'r gweithgareddau ar yr ynys, gan ddechrau ar weithgareddau ar Ynys Farged hefyd. Parhaodd poblogaeth yr ynys i gynyddu, gyda'r cofnodion yn nodi mewnlifiad o bobl o lawer o bentrefi de Sir Benfro. Yn 1841, roedd Kynaston yn cyflogi pum gwas fferm - ddwy flynedd yn ddiweddarach, ysgrifennodd Mary Ann Bourne fod "rhan fawr o'r ynys mewn cyflwr da o dyfu a chynhyrchu". Bu farw Cabot Kynaston yn 1866 ac ym mis Tachwedd 1867 prynwyd Ynys Bŷr gan James Wilson Hawksley am £15,950. Dechreuodd Hawksley ar fenter arddwriaethol uchelgeisiol, gan adeiladu tai gwyrdd helaeth wedi'u cynhesu gan system stêm ddatblygedig, yn ogystal â magu da byw. Erbyn 1881, roedd yna nawdeg o bobl ar yr ynys, gyda 16 o dai yn bodoli.
21. Bu farw Hawksley ym 1891, a gwerthwyd yr ynys i Thomas Smith-Cunninghame, a barhaodd â'r gwaith garddwriaethol. Yn 1897, prynodd y Parchedig William Done Bushell, uwch feistr yn Harrow, yr ynys. Wrth iddo agosáu at ymddeol, penderfynodd Bushell droi'r ynys yn encil gwyliau, gan adfer yr hen briordy ac adnewyddu'r eglwys ddiffaith ar gyfer addoli rheolaidd a gosododd y fferm i denant lleol.
22. Yn 1906, gwerthodd Bushell Ynys Bŷr i ddyn ifanc o'r enw Benjamin Fearnley Carlyle fel cartref parhaol i'w gymuned newydd o fynachod Benedictaidd; ac ar ôl bron i bedair canrif roedd olwyn hanes yr ynys wedi troi'n gylch llawn. Mae'r gymuned grefyddol a sefydlwyd ar Ynys Bŷr yn 1906 yn nodi'r ymgais lwyddiannus gyntaf ym Mhrydain i sefydlu cymuned fynachaidd yn yr eglwys sefydledig ers y Diwygiad Protestannaidd. Cafodd ei gynllunio gan yr Abad obsesiynol Carlyle, yr enillodd ei ymdrechion diflino ac weithiau dadleuol gydnabyddiaeth swyddogol iddo ef a'i ddilynwyd o Gaergaint, a chefnogaeth ddiweddarach gan Anglicaniaid uchel dylanwadol, fel yr Arglwydd Halifax.
23. Yn ystod y blynyddoedd rhwng 1906 a 1913, roedd Ynys Bŷr yn y newyddion cenedlaethol, gyda'r chwyddwyd ar sêl ac afradlondeb Carlyle - roedd ei ymgyrch dros bethau cain mewn celf a phensaerniaeth bob amser yn fwy na'r arian oedd ar gael. Erbyn 1912, roedd Carlyle ar ei anterth, ar ôl adeiladu Abaty anferth gyda Thŷ Abad palasaidd. Y flwyddyn wedyn fe ffrwydrodd y swigen yn sydyn pan arweiniodd amheuaeth gynyddol yr esgobion Anglicanaidd at benderfyniad Carlyle i drosi i Rufain. Roedd dyddiau nawdd Anglicanaidd uchel ar ben a chyda dechrau'r rhyfel, buan y gwanhaodd y diddordeb yn y gymuned grefyddol fach ar Ynys anghysbell yng Nghymru.
24. O'r cychwyn cyntaf, roedd Carlyle eisiau gwneud yr ynys ei hun yn encil heddychlon - ar gyfer ymwelwyr dylanwadol, ac ar gyfer y rhai oedd yn dymuno ymgartrefu. Yn naturiol, roedd hyn yn gofyn am fwy o adeiladau na'r Abaty a'r Gwesty Bach, ac erbyn 1910 roedd yr ardal gyfan o amgylch yr Abaty yn

fwrlwm o weithgaredd, gyda bythynnod newydd yn codi ym mhobman. Roedd pensaer yr adeiladau'n un o arweinwyr yr arddull Celfyddyd a Chrefft, John Coates Carter o Benarth. Erbyn 1913 amcangyfrifwyd bod dros £68,000 wedi'i wario ar waith adeiladu.

25. Roedd Carlyle yn gweithredu o fewn grŵp dylanwadol o Anglicaniaid uchel, gan gynnwys yr Arglwydd Halifax, Athelstan Riley (Seigneur De La Trinité Ynys Jersey), Samuel Gurney (Ysgrifennydd Cymdeithas Medici), Iarll Plymouth, y pensaer Americanaidd Ralph Adams Cram, a'r banciwr, Syr Samuel Hoare. Nid oedd yr artistiaid a gyfrannodd at ffitio'r Abaty yn llai pwysig, gan gynnwys Henry Wilson, F. C. Eden, a J. M. Comper.
26. Ni chafodd yr holl adeiladau eu cwblhau tan 1915, ddwy flynedd ar ôl troi'r gymuned yn Babyddion. O ganlyniad, cafodd cornel gogledd-ddwyreiniol yr Abaty ei lleihau mewn maint yn sylweddol.
27. Arhosodd Carlyle fel Abad o dan reolaeth yr Esgob Menevia tan iddo ymddiswyddo yn 1922. Tair blynedd yn ddiweddarach prynodd yr urdd Sistersaidd yr ynys. Pan adawodd y Benedictiaid eu hunain Ynys Bŷr ym 1928 am Prinknash, aethon nhw â phopeth symudol gyda nhw - hyd yn oed y clychau o dwr Eglwys yr Abaty. Sefydlwyd y gymuned Sistersaidd a ddaeth yn eu lle ar ddechrau 1929 o'i mam Abaty yn Chimay, Gwlad Belg. Heddiw mae'r ynys yn parhau yn eiddo i'r Urdd Sistersaidd ac o dan ei reolaeth.

Dadansoddiad o Gymeriad

28. Mae cymeriad Ynys Bŷr wedi'i gysylltu'n gynhenid a'i hanes a'i datblygiad.

- Mae'r ynys yn parhau i gael ei defnyddio gan fynachod ar ôl dros fileniwm.
- Ystyrir yr Ardal Gadwraeth o bwysigrwydd archaeolegol eithriadol.
- Ymhlith yr adeiladau canoloesol allweddol i oroesi mae'r Hen Briordy ac Eglwys Dewi Sant.
- Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau fferm a muriau caeau yn rhychwantu'r deunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi goroesi.
- Mae'r adeiladau mynachaid o'r ugeinfed ganrif gynnar o arwyddocâd archaeolegol rhyngwladol.
- Mae'r ynys yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddiwydiant twristiaid y sir.
- Ceir golygfeydd braf o'r ynys o'r tir mawr o gwmpas Dinbych-y-pysgod a Phenalun.
- Mae'r palet pensaernïol yn amrywio o adeiladau rwbel hŷn i'r plastr garw Celfyddyd a Chrefft a thoeau teils clai.
- Mae'r mwyafrif o'r tai a'r bythynnod wedi'u gosod yn anffurfiol ar hyd traciau coediog gydag ychydig neu ddim ffiniau ffurfiol.
- Nid oes yna unrhyw ddatblygiad modern sy'n tynnu sylw; mae gan yr ynys gyfan gymeriad bythol unigryw.

29. Mae'r Ardal Gadwraeth wedi'i rhannu yn dair Ardal Gymeriad, gyda phob un yn cael ei thrafod yn y penodau canlynol. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys 26 o **Adeiladau Rhestredig a 2 Heneb Gofrestredig** Dangosir y rhain ar y map Ardal Gymeriad, ynghyd ag **adeiladau tirnod** ac **adeiladau cadarnhaol** (adeiladau allweddol heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth). Mae'n anochel bod yr Ardal Gadwraeth yn cynnwys nifer o nodweddion lleol, gan gynnwys terfynau cae a phileri giât o garreg.

30. Mae'r map hefyd yn nodi **cwrtilau/ffryntiadau allweddol** (gan gynnwys waliau a rheiliau), **ardaloedd agored hanfodol** a **choed/grwpiau o goed pwysig**.

Ardal Cymeriad 1 – y Fferm a'r Priordy Canoloesol

31. Mae yna ddau brif grŵp o adeiladau yn yr ardal. O arwyddocâd allweddol yw'r Priordy canoloesol, iard fach hardd o adeiladau ac eglwys Sant Illtyd sy'n ffurfio'r rhes ddeheuol, gyda'i thwr a'i meindwr ar ogwydd. Mae'r porthdy wedi'i leoli o fewn y rhes orllewinol (oedd llawer hirach yn wreiddiol), mae'r rhes ddwyreiniol yn darparu llety mynachaid a thŷ'r prior, wedi'i osod ar gyfres gymhleth o is-grofftau cromennog. Caiff yr eglwys ei defnyddio o hyd, mae'r adeiladau sy'n weddill wedi'u hadnewyddu yn rhannol, ond maent yn wag. Mae gan yr adeiladau hanes strwythurol cymhleth iawn. Mae'r eglwys yn cadw gwaith o'r drydedd ganrif ar ddeg, ac mae'r rhes ddwyreiniol a'r tŵr yn bennaf o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Newidiwyd ffowtiau y rhes ddwyreiniol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, pan adeiladwyd y porthdy: mae talcen grisiau brain y rhes ddwyreiniol yn ganlyniad i waith ehangu'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg a oedd yn ymestyn dros gangell eglwys y priordy. I'r dwyrain mae yna bwl mawr, gydag olion pyllau pysgod canoloesol yn rhedeg i'r gogledd.



Ffigwr 1 - yr olygfa dros adeiladau'r fferm a'r priordy canoloesol

32. I'r de a'r gorllewin mae yna grŵp helaeth o adeiladau fferm, nas defnyddir y rhan fwyaf ohonynt erbyn hyn. Mae'r adeiladau plaen wedi'u hadeiladu o rwbel calchfaen lleol gydag ychydig o fanylion brics ar rai drysau a phennau ffenestri. I bob pwrpas mae'r adeiladau'n cynnwys dwy iard yn gorwedd i'r gogledd a'r de o grŵp craidd canolog sy'n codi i ddau lawr.
33. Mae'r priordy gyda'i garreg arysgrifedig hynafol yn dystiolaeth o bresenoldeb mynachaid cynharaf ar yr ynys. Mae'r adeiladau domestig wedi cael eu hagor yn rhannol i'r cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llwybr caniatol

yn rhedeg trwy'r iard. Ar ôl i ffermio da byw ddod i ben yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp helaeth o adeiladau fferm bellach yn wag yn bennaf.



Ffigwr 2 - adeiladau'r priordy canoloesol

34. Mae'r ardal o bwysigrwydd a photensial archaeolegol mawr. Mae'r **adeiladau tirnod** yn cynnwys Eglwys y Priordy gyda'i meindwr cam amlwg. Mae adeiladau'r Priordy wedi'u rhestru, gydag **adeiladau cadarnhaol** eraill heb eu rhestru wedi'u nodi o ran eu cyfraniad i'r dirwedd.



Ffigwr 3 - melin adfeilledig

35. Yn yr Ardal Cymeriad, mae cyferbyniad rhwng y buarth agored wedi'i goncritio gyda'i adeiladau helaeth a'r dyffryn coediog agos i'r gogledd gyda'i daith gerdded ddeniadol heibio i byllau'r felin a'r felin adfeiliedig. Adeiladau'r priordy sy'n ffurfio'r craidd canolog, yn weledol a hanesyddol.
36. Yr argraff gyffredinol o'r ardal yw delfrydol. Er bod yr ynys yn boblogaidd gyda thwristiaid, mae'r seilwaith yn briodol gynnil, heb fawr ddim arwyddion ymwthiol na nodweddion safonedig.
37. Mae yna olygfeydd bendigedig ar draws y môr tuag at Ddinbych-y-pysgod a Phenalun, gyda mynyddoedd y Preseli i'w gweld ar ddiwrnod clir. **Nodir golygfeydd a chipolygon allweddol** ar y map mewnosodedig: un o'r golygfeydd mwyaf dramatig yw'r panorama o ochr orllewinol adeiladau'r fferm.



Ffigwr 4 - golygfeydd tua'r môr o'r gorllewin o adeiladau'r fferm


38. Nid yw **mannau agored cyhoeddus** wedi'u diffinio'n gyfan gwbl o fewn yr ardal. Gellir archwilio llawer o'r ardal i ffwrdd o'r llwybrau caniataol. Mae nifer fach o **goed/grwpiau o goed** yn bwysig i gymeriad yr ardal, gan gynnwys y coetir lled-naturiol o amgylch y pyllau melin.



Ffigwr 5 Adeiladau fferm o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg

39. Mae'r ffactorau negyddol yn cynnwys:-

- Cyflwr lled-adfeiliedig llawer o'r adeiladau fferm
- Yr angen am waith cadwraeth parhaus i adeiladau'r priorddy, yn cynnwys hen dŷ'r prior.



- | | |
|---|--|
| Ardal Gadwraeth/
Ardaloedd Cymeriad | Gorchymyn Cadw Coed/
Coed sy'n bwysig i'r lleoliad |
| Adeiladau Rhestredig | Ardaloedd Agored Hanfodol |

Ynys Bŷr
Ardal Gadwraeth
Designated 1997
MAPIAU 2

**Ardaloedd
Cymeriad: 1**

Drawn by: Created by Philip Davies (1/11/2021)

© New Forest & Dorset National Park Authority. All rights reserved. © Crown copyright and database right Ordnance Survey 100022346, 2021.

Graddfa / Scale: 1:1,252



Ardal Cymeriad 2 - Yr Abaty a Grîn y Pentref

40. Mae'r ardal hon yn cynnwys prif anheddiad yr ynys, wedi'i ddominyddu gan adeiladau'r fynachlog, sy'n eistedd ar glogwyn dros grîn y pentref. Mae'r rhes o fythynnod o dan y fynachlog yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond fe'u hail-fodelwyd yn ystod y gwaith adeiladu helaeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif o dan arweiniad John Coates Carter, a gynhyrchodd nid yn unig yr Abaty, ond y Swyddfa Bost a'r bythynnod o'r enw Sant Joseff, Sant Pedr a'r Efail. Cafodd grîn y pentref ei chreu ar yr adeg hon, trwy dynnu i lawr dau o'r bythynnod teras.
41. Mae'r adeiladau llai o steil Celfyddyd a Chrefft plastr garw nodweddiadol. Mewn cyferbyniad, mae'r Fynachlog bron y tu hwnt i ddisgrifiad, yn enwedig pa mor fawr yw'r rhes ogleddol. Mae'r waliau gwyn a'r toeau panteils yn awgrymu dylanwad Canoldirol, ond mae manylion fel bwâu'r islawr yn dangos dylanwad y pensaer Americanaidd, H.H. Richardson. Mae'r defnydd cyffredinol o dyrau a phroffiliau crwm yn dwyn i gof gyn-feistr Coates Carter, J.P. Seddon tra bod y simneiau tal yn dwyn i gof William Burges (e.e. Castell Coch). Mae'r Swyddfa Bost yr un mor idiosyncratig, gyda'i tho cambren llethrog yn ymestyn dros feranda ddofn. I'r dwyrain, o fewn ei mynwent dawl gorwedda goroeswr pwysig ar yr ynys ganoloesol sef Eglwys Dewi Sant.



Ffigwr 6 -Abaty Ynys Môn a'r Swyddfa Bost

42. Mae'r ardal o bwysigrwydd a photensial archaeolegol mawr. Mae tua 15 (y rhan fwyaf) o'r adeiladau'n **rhestredig**.

43. Mae cymeriad cyffredinol yr ardal yn debyg i olygfa ddramatig wedi'i gosod ar lwyfan i'r ymwelydd sy'n cyrraedd trwy'r llwybrau coediog o'r lanfa. Er gwaethaf maint yr Abaty, mae lleoliad yr anheddiad o fewn pant yn sicrhau ei fod wedi'i guddio'n rhyfeddol o lawer o olygfannau ar draws yr ynys, heblaw am Dwr yr Abad gyda'i gap conigol sy'n fwriadol uchel. Grŵn y pentref yw'r canolbwynt i ymwelwyr yr haf, gydag ystafell de a siop yn meddiannu'r ochrau gogleddol a gorllewinol yn y drefn honno. Mewn cyferbyniad llonydd mae Eglwys Dewi Sant i'r dwyrain, sydd wedi'i gosod yn ei mynwent fach ei hun.
44. Mae wal gwrtil a giât Tŷ'r Abad wedi'u nodi fel **cwrtil/ffryntiad allweddol**. Mae **golygfeydd a chipolygon allweddol** wedi'u nodi ar y map mewnosodedig.
45. Yn yr ardal, y **man agored cyhoeddus** amlwg yw grŵn y pentref, yr ardal i'r de o'r Abaty sy'n cynnwys y lloc mynachaid preifat. Mae **coed/grwpiau o goed** yn bwysig i gymeriad yr ardal, gan gynnwys yr ardaloedd coediog i'r gogledd.
46. Mae'r ffyrdd trwy'r pentref o goncrid gyda dim cyrbau ffurfiol, gan roi ymddangosiad niwtral priodol.



Ffigwr 7 - Bythynnod



Ffigwr 8- Eglwys Dewi Sant



- Ardal Gadwraeth/
Ardaloedd Cymeriad
- Gorchymyn Cadw Coed/
Coed sy'n bwysig i'r lleoliad
- Adeiladau Rhestredig
- Ardaloedd Agored Hanfodol
- Cyfle i wella'r adeilad

Ynys Bŷr
Ardal Gadwraeth
Designated 1997
MAPIAU 3

Ardaloedd
Cymeriad: 2

Drawn by / Created by Philip Davies (1/11/2021)

Graddfa / Scale: 1:954

© New Forest & Forest of Dean Local Enterprise Partnership (LEP) / © Crown copyright and database right Ordnance Survey 10002234, 2021



Ardal Cymeriad 3 – Ardaloedd Pellennig

47. Mae llawer o'r ardal y tu allan i adeiladau'r Abaty a'r Priordy yn cynnwys tir fferm agored, yn nodweddiadol heb goed gyda waliau cerrig yn lle'r gwrychoedd arferol. Mae'r ardaloedd mwy agored yn caniatáu golygfeydd gwych ar draws yr ynys ac allan i'r môr, i'r dwyrain ar draws Bae Caerfyrddin ac i'r gogledd tuag at Ddinbych-y-pysgod a Phenalun. Diwedd y ddeunawfed ganrif, pan adeiladwyd y waliau, roedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio i dyfu ŷd.



Ffigwr 9 - Caeau â waliau cerrig

48. Mae'r ardal hon yn cynnwys dwy **Heneb Gofrestredig** ac mae o bwysigrwydd a photensial archaeolegol mawr. Mae tua 10 o'r adeiladau **wedi'u rhestru**.



Ffigwr 10 -


49. Mae'r ardal i gyd bron yn cynnwys mannau agored, gan gynnwys y caeau, pentiroedd arfordirol a'r traeth ym Mae'r Priordy.
50. Mae'r **golygfeydd allweddol** i'w gweld ar y map. (gweler tudalen 28).
51. Mae yna wasgariad o adeiladau yn yr ardal, gan gynnwys Gwesty Bach Santes Philomena i'r gogledd-orllewin (un o'r adeiladau Benedictaidd cynharaf, a adeiladwyd yn 1906) sydd ag odyn galch enfawr ar y tir a'r capel preifat i'r gogledd, tŵr crwn o ddyddiad ansicr. I'r gogledd-ddwyrain mae Tŷ Gwyn, enghraifft dda o dŷ steil Celfyddyd a Chrefft a adeiladwyd yn 1910-11 gan Coates Carter gyda waliau gwyn wedi'u rendro a thoeau teils coch ysgubol. Mae Tŷ Gwyn a Goleudy Ynys Bŷr i'r de (adeiladwyd yn 1828-29) yn **adeiladau tirnod**.



Ffigwr 11



Ffigwr 12



- | | |
|--|--|
| Ardal Gadwraeth/
Ardaloedd Cymeriad | Henebion Rhestredig |
| Adeiladau Rhestredig | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| Gorchymyn Cadw Coed/
Coed sy'n bwysig i'r lleoliad | Ardalodd Agored Hanfodol |
| | Cyflle i wella'r adeilad |

Ynys Bŷr
Ardal Gadwraeth
Designated 1997
MAPIAU 4

Ardaloedd
Cymeriad: 3

Crewyd gan / Created by Philip Barlow (1/11/2021)

Gredidfa / Scale: 1:5,210

© Newlyn & Llanelli Local Area Development Planning Committee / © Crown copyright and database right Ordnance Survey 100022534, 2021



Deunyddiau adeiladu

Waliau

- Mae bron yr holl adeiladau wedi'i hadeiladu o rwbel calchfaen lleol. Mae'r adeiladau canoloesol o rwbel agored (wedi'u rendro'n wreiddiol). Mae'r rhan fwyaf o adeiladau diweddarach wedi'u rendro a'u paentio'n wyn a'r adeiladau fferm o rwbel agored. Mae Gwesty Bach Santes Philomena (1906) yn anghyffredin gan ei fod wedi'i addurno â chalchfaen nadd. Peth gwaith adeiladu concrit wedi'i gaeadu i'r Abaty (drychiad dwyreiniol a Thŵr yr Abad).



Ffigwr 13 Palet nodweddiadol o waliau gwyn wedi'u rendro a thoeau gyda phanteils.

Ffenestri

- Yn bennaf, casmentau â phaneli bach o ddechrau'r ugeinfed ganrif i adeiladau mwy amlwg; llawer o fythynnod gyda ffenestri codi â phaneli bach o ddyddiad tebyg. Casmentau plwm ar adeiladau'r Abaty. Mae yna ychydig o ffenestri gwydr lliw cain o'r 1920au wedi'u dylunio a'u gwneud gan Dom Theodore Baily ar yr ynys.



Ffigwr 14 Gwydr yn yr Abaty gan Dom Theodore Baily

Drysau

- Y rhan fwyaf yn ddrysau plaen astellog, y rhan fwyaf gyda gorffeniad paent.

Toeau

- Mae gan y rhan fwyaf o adeiladau Coates Carter doeau o banteils coch (teils plaen sydd gan Dŷ Gwyn), teils Bridgewater yn wreiddiol.
- Mae gan adeiladau'r priordy a'r goleudy do llechi
- Rhai adeiladau fferm gyda tho llechi; mae'r rhan fwyaf wedi cael to newydd o ddalennau rhychiog.
- To wedi'i growtio â sment ar y storfa olew.
- Talcennau gyda chopar ar y goleudy a'r adeiladau ategol



Ffigwr 15- to wedi'i growtio â sment ar y storfa olew.

Simneiau

- Yn hanesyddol y rhan fwyaf wedi'u rendro gyda photiau plaen
- simnai silindrig o'r unfed ar ganrif ar bymtheg ar res orllewinol y Priordy
- Cyrn simdde tal wedi'u rendro ar yr Abaty



Ffigwr 16- Simnai gron o'r unfed ganrif ar bymtheg, Priordy Ynys Bŷr

Ffiniau

- Nid oes gan y mwyafrif o eiddo ffiniau ffurfiol. Ymhlith yr eithriadau mae gerddi blaen y rhes o fythynnod, waliau gardd Tŷ'r Abad a chlostir ffurfiol adeiladau'r goleudy.
- Mae gan y caeau cyfagos waliau cerrig, cawsant eu hamgáu i raddau helaeth ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae rhai 'joms' gatiau crwn wedi goroesi, sy'n nodwedd gyffredin yn ne Sir Benfro.

Gosodiad y Dirwedd a'r Morlun

52. Saif Ynys y Bŷr oddeutu dwy filltir i'r de o Ddinbych-y-pysgod, yn Ardal Cadwraeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.
53. Mae Asesiad Cymeriad Tirwedd Dros Dro Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (2020) yn nodi bod yr ynys yn cynnwys ardal amaethyddol sefydlog ar raddfa fach sy'n cynnig cyswllt agos â'r amgylchedd arfordirol, gyda naws fwy trinedig na'r ynysoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol. Mae Ynys Bŷr yn unigryw ymhlith ynysoedd alltraeth Sir Benfro yn yr ystyr bod ganddi hanes hir, parhaus o anheddiad dynol gyda chysylltiadau crefyddol ffurfiol. Mae yna agwedd hanesyddol ac ysbrydol gref yn cael ei darparu gan yr eglwys hirsefydlog ac adeiladau'r fynachlog
54. Mae Asesiad Morlun Dros Dro Ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (2020) yn nodi'r cyferbyniad rhwng gweithgareddau cymunedol a thwristiaeth y tir mawr o amgylch Dinbych-y-pysgod a llonyddwch gosodedig a rheoledig Ynys Bŷr ei hun.
55. Mae'r **golygfeydd amlwg** i'r Ardal Gadwraeth yn amrywio'n ddramatig, gyda golygfeydd o'r ynys yn amlwg o ffyrdd arfordirol a mannau gwyllo o Amroth i'r gogledd i Lydstep i'r de. Ymhellach i'r tir mae golygfeydd o'r B4318 ger Gumfreston a'r Gefnffordd, i'r gorllewin o Benalun.



Ffigwr 17 - Golygfa o Ynys Bŷr o Ddinbych-y-pysgod

Mae'r map dros y dudalen yn crynhoi'r golygfeydd amlwg i'r Ardal Gadwraeth

Map o Olygfeydd Amlwg Ynys Bŷr



Ynys Bŷr Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1997 MAPIAU 5

1. Yr olygfa o Gastell Amroth yn dangos dwyrain-gorllewin yr ynys gyda Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin yn y blaendir.
2. Yr olygfa o bentref Amroth yn dangos dwyrain-gorllewin yr ynys.
3. Golygfeydd amrywiol o Dinbych-y-pysgod (Promenâd Paragon, Castle Hill, Mynwent). Mae Bae'r Priordy yn amlwg gyda Thy Gwyn wedi'i osod ymhlith coed a goleudy Ynys Bŷr yn amlwg ar y gorwel.
4. Yr olygfa o Fryn Gumfreston yn dangos Bae'r Priordy, Ty Gwyn a'r goleudy.
5. Golygfa wych o'r ynys o'r Gefnffordd yn dangos Bae'r Priordy a Sandpit gydag Ynys Catrin yn y blaendir. Mae sawl adeilad i'w weld gan gynnwys goleudy Ty Gwyn ac adeiladau'r fferm/yr Hen Briordy.
6. Golygfa banoramig hyfryd o Ynys Bŷr ac Ynys Catrin o Lydstep.
7. Dwyrain-gorllewin yr ynys o bentref Penarth.

56. O'r tu mewn i'r Ardal Gadwraeth ei hun mae yna nifer o **golygfeydd allweddol**, gan gynnwys yr olygfa banoramig tuag at Ddinbych-y-pysgod, Ynys Farged a Phenalun. Amlinellir y rhain yn y mapiau Ardal Cymeriad mewnosodedig.
57. Hefyd i'w gweld ar y mapiau mewnosodedig mae **cipolygon allweddol** o'r tu mewn i'r Ardal Gadwraeth tuag at wrthrychau/tirnodau/pwyntiau o ddiddordeb. Mae'r rhain yn cynnwys golygfeydd o adeiladau'r Abaty a'r Priorddy o'r caeau a'r llwybrau amgylchynol.



Ffigwr 18 - Cipolwg ar y Priorddy o'r ffordd i'r goleudy.

Ynys Bŷr

Ardaloedd anghysbell sy'n bwysig i leoliad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth



Ynys Bŷr Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1997 MAPIAU 6

- A. Tir fr ddeyrain o Abaty Ynys Bŷr gan gynnwys hen erddi mynacholidd, caeau pellenig Bae Jones a Bae Bulum - safle Mesolithig pwysig.
- B. Tir fr gorllewin o'r pentref gan gynnwys caeau nodweddiadol â waliau cemig, traciau a Bae Sandriop.
- C. Ynys Farged gan gynnwys olion archeolegol pwysig.

Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

58. Gall addasiadau modern amhriodol effeithio'n andwyol ar ymddangosiad golygon adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol yn gorfforol i'r adeiladwaith hanesyddol. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol pwysig sydd dan fygythiad o addasiadau o'r fath mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a chasinau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw, a photiau a chyrn simnai. Mae'n bwysig, felly, bod perchnogion a deiliaid eiddo yn mabwysiadu'r dull cywir o atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn. Mae cronni manylion bach ar y strydlun yn rhan annatod o'i gymeriad ac mae angen gofal arbennig i'w gwarchod.
59. Dylai'r gwaith arfaethedig gynnwys asesu pob safle ac adeilad o ran ei gyfraniad at gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, ei werth hanesyddol, ei ffurf adeiladu a'i berfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i oroesiad ei adeiladwaith. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfêwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylai hyd yn oed y gweithrediadau symlaf fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae adeilad penodol yn 'gweithio', ynddo'i hun ac mewn perthynas â'i osodiad. Dylai unrhyw waith i adeiladau mwy ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol fod yn seiliedig ar gynllun cadwraeth a ymchwiliwyd yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yn gynaliadwy yng Nghymru <https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciplesDLE/u400<3inneach>
60. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn atal newid ond mae'n ffurfio fframwaith i'r dref ddatblygu ynddo heb golli unrhyw un o'r priodoleddau sy'n ei gwneud yn arbennig.

Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig

61. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Mae rheolaeth adeilad rhestredig yn cael ei weithredu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a rheolaeth Henebion Cofrestredig gan Cadw. Mae rhestru adeiladau yn cynnwys eu tu allan, y tu mewn a'r cwrtiau hanesyddol (y myth cyffredin yw bod rhestru'n berthnasol i ffasadau yn unig).

Cynnal a Chadw

62. Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i adeilad yw'r ffordd orau a mwyaf economaidd o gadw ei adeiladwaith. Cyfrifoldeb perchnogion a phreswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy'n cael ei edrych ar ei ôl yn cadw ei werth a bydd yr angen am waith atgyweirio helaeth yn cael ei osgoi. Y mater pwysicaf yw amddiffyn rhag dŵr a thamprwydd. Y pethau cyntaf y dylid eu hatgyweirio yw toeau, landeri a pheipiau dŵr. Efallai y bydd perchnogion adeiladau mawr

yn ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

Gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd

63. Dylai perchnogion adeiladau a phreswylwyr sicrhau bod y tasgau canlynol yn cael eu gwneud yn rheolaidd:
- **Clirio dail a malurion** yn enwedig ar ôl yr hydref a chanolbwyntio'n benodol ar gwteri a nwyddau dŵr glaw. Cyfnod o law trwm yw'r amser gorau i weld unrhyw ddiffygion.
 - **Rheoli twf planhigion** sy'n gallu cyflymu dirywio ac weithiau achosi niwed i strwythur adeiladau. Dylid lladd eiddew trwy ei dorri wrth ymyl y ddaear a gadael iddo wywo cyn ceisio tynnu'r gwreiddiau o'r wal. Mae angen defnyddio chwynladdwr i gael gwared ar falerian.
 - **Chwilio am ymosodiadau gan bryfed a ffyngau** sy'n gallu cael eu hachosi gan damprowydd ac awyru gwael.
 - **Gwirio awyru** i sicrhau nad yw unrhyw ddellt sy'n awyru mannau o dan y lloriau wedi'u blocio. Gall diffyg awyru arwain at amodau lle gall pydredd ffwngaidd gydio.
64. Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am atgyweiriadau mawr i'r holl adeiladau a dylai atgyweirio nodweddion gwreiddiol fod yr opsiwn cyntaf i'w ystyried bob amser. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau yn cyrraedd diwedd eu hoes yn y pen draw, ac os felly bydd yn rhaid ystyried ailosod gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio profedig. Y dewis arall yw colli gwerth hanesyddol adeiladau unigol ac erydiad graddol diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau yn yr ardal gadwraeth yw atal, neu arafu o leiaf, y broses o bydru heb niweidio na newid nodweddion sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol/pensaernïol.
65. Gall diffyg gwaith cynnal a chadw parhaus arwain at ddirywiad yn adeiladwaith yr adeilad, er enghraifft, os oes gwteri ar goll neu os na chaiff toeon sy'n gollwng eu hatgyweirio, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio i rannau o'r adeilad sydd dan fygythiad.

Toeau

66. Toeon ardal drefol sy'n ffurfio'r nenlinell a phroffil gweledol strydlyn ac mae'n rhan bwysig iawn o'i hunaniaeth. Y cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a chasgliad sy'n creu'r 'het', sy'n eistedd uwchlaw'r adeilad ac sy'n hanfodol i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion yn weledol ar lefel y stryd bob amser, mae'r topograffi lleol yn caniatáu golygfeydd tuag at, ar draws a thros y toeon o rannau gwahanol o'r dref. Mae'r to, yn ôl ei natur, yn rhan hanfodol o amddiffynfa adeilad rhag y tywydd ac, fel y cyfryw, dyma un o'r ardaloedd pwysicaf i ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arni.

Gorchuddion Toeon

67. Mae'r rhan fwyaf o eiddo'n defnyddio llechi naturiol, a dylid defnyddio'r rhain ar gyfer unrhyw waith atgyweirio neu ddisodli. Dylai cribau, bargodion a manylion eraill gael eu gosod mewn mortar gydag uniadau bôn. Nid yw'n briodol defnyddio teils concrid a chlai.
68. Mae llechi naturiol wedi'u mewnfario sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-efeithiol, ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydawnsedd pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Mae llechi naturiol wedi'u mewnfario sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-efeithiol, ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydawnsedd pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Os caiff y to ei inswleiddio, dylid ei osod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, os yw'r awyru yn ddigonol (drwy fylchau yn y bondo, nid tyllau aer sy'n cael eu gosod ar oledf y to). Bydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to gan arwain at broblemau posibl mewn manylion yn y bondo a lle mae'n ffinio ag adeiladau eraill. Fodd bynnag, gall cyflwyno lefelau uchel o inswleiddio i adeiladau hŷn achosi anwedd a dirywiad dilynol.

Ffenestri to a dormerau

69. Pan gaiff croglofftydd eu trawsnewid a bod angen ffenestri to neu ddormerau, dylid eu gosod fel arfer ar gefnluniau gan eu bod yn torri ar draws llinell barhaus goledf y to ar ochr y stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd, lle nad oedd dormerau yn bodoli o'r blaen, lle y bo'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a maint a chydbwysedd ffurf a chasgliad yr adeilad. Lle mae dormerau gwreiddiol yn bodoli, dylid hefyd osgoi unrhyw newidiadau i'r mesuriadau a'r maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern o ffenestri to haearn bwrw cynnar (i'r mesuriadau a'r maint cywir, ynghyd â bar gwydro fertigol) er mwyn cadw cymeriad y to cymaint â phosibl. Mae gan lawer o weithgynhyrchwyr ffenestri Ffenestri To Cadwraeth gwydr dwbl arbennig, sydd wedi'u cynllunio i eistedd ar arwyneb y to.

Simneiau a Chyrn Simneiau

70. Mae cyrn a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simnai a'u hatgyweirio gan osod potiau clai newydd yn ôl yr angen. Pan fydd corn gwreiddiol wedi'i wneud yn fyrrach, yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Lle na cheir unrhyw dystiolaeth bod patrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw at yr arddull lleol, yn nodweddiadol gyda chysiau corbelog yn y bargodi ar y pen. Mae'r mwyafrif o gyrn simnai o frics coch, ond beth bynnag fo'r deunyddiau, dylid dilyn yr adeiladwaith gwreiddiol.

Panelli Solar Dŵr Poeth a Phaneli Solar Ffotofoltäig

71. Bydd yr angen i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn cael ei gydbwysu yn erbyn yr angen i amddiffyn cymeriad ac ymddangosiad yr ardal wrth ddelio â chynigion ar gyfer paneli solar mewn Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd sensitifrwydd yr Ardal Gadwraeth i addasiadau modern, bydd angen ystyried lleoliad a dyluniad y paneli yn ofalus.
72. Ni fydd gosod paneli yn briodol ar brif weddau adeiladau neu mewn lleoliadau amlwg o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Dylid ystyried lleoliadau amgen yng nghefn adeiladau, ar dai allan atodol neu wedi'u gosod ar y ddaear, lle na fyddai'r paneli yn weladwy o'r briffordd. Ni ddylai paneli estyn allan mwy na 200mm o'r to neu arwyneb y wal.
73. Dylai'r paneli fod o liw tywyll a dylai'r fframiau fod yn ddu mat neu lwyd. Dylid osgoi paneli glas lliw golau safonol gyda fframiau llwyd golau adlewyrchol.

Landeri a Pheipiau Dŵr

74. Dylid ystyried defnyddio landeri haearn bwrw traddodiadol (neu alwminiwm bwrw) wrth adfer adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio landeri hanner crwn syml bob amser ar adeiladau cynharach. Mae landeri patrwm hanner crwn ac ogee yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Nid yw deunyddiau uPVC rhatach mor gryf ag haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac maent yn fwy agored i effaith a difrod tywydd, yn ogystal â chamdroad, sydd weithiau'n effeithio ar raddiant a chwymp naturiol landeri gyda'r risg o ganlyniad o ollyngiadau a threiddiad dŵr i mewn i adeiladwaith yr adeilad. Gall uPVC o ansawdd uwch fod yn addas mewn cyd-destun modern neu i weddau llai.

Ffenestri a gwydro

75. Ffenestri yw 'llygaid' adeilad a chanolbwynt ei gymeriad. Ffenestri codi llithro â hongiad dwbl sydd i'w gweld yn bennaf yn yr ardal gadwraeth. Mae newidiadau i fesuriadau agoriadau ffenestri a/neu'r ffenestri eu hunain yn anochel yn cael effaith andwyol ar ffasâd yr adeilad yn gyffredinol. Dylid osgoi ymgorffori holltau awyru, oherwydd eu heffaith andwyol ar y cymeriad cyffredinol.
76. Dylid cadw ffenestri codi gwreiddiol bob amser a'u hatgyweirio, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml y bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle. Mae dadfeiliad fel arfer i'w weld o gwmpas y silliau lle gellir asio pren newydd i mewn. Mae'r gwydr crwm neu'r gwydr silindr gwreiddiol yn deneuach gydag arwyneb mwy anwastad o gymharu â gwydr nofiol modern gan roi adlewyrchiadau mwy cynnil, a lle mae wedi goroesi, dylid ei gadw bob amser. Mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach ar wydr modern trymach er mwyn gwrthbwysu'r ffenestr. Pan fydd yn rhaid gosod ffenestr newydd, yn hytrach na'i hatgyweirio, dylai'r ffenestr newydd fod yn un pren a dylai gyd-fynd yn union â'r ffenestr wreiddiol. Lle bo gwydr dwbl yn bosibl, rhaid rabelu'r unedau wedi'u selio yn draddodiadol a rhaid iddynt fod o fanyleb fain er mwyn caniatáu manylion saernïaeth main traddodiadol. Dylid cadw silliau ffenestr llechi gwreiddiol lle y bo'n bosibl.

77. Mae cael gwared â ffenestri anghydnaws nad ydynt yn wreiddiol i'r adeilad, a gosod rhai i efelychu'r math a'r patrwm hanesyddol yn cael ei annog. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol wedi cael eu newid yn amhriodol, bydd ffenestri o ddeunyddiau anhraddodiadol sy'n efelychu'r dyluniad gwreiddiol yn cael eu hystyried yn ffafriol, yn amodol ar gytuno ar y fanyleb fanwl. Bydd angen caniatâd cynllunio o fewn Erthygl 4(2).
78. Lle mae deiliaid tai yn dymuno efelychu ffenestri anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y ffenestri yn dyddio cyn dynodiad yr ardal gadwraeth a chynigir atgynrychiadau union gywir.
79. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol neu hanesyddol wedi goroesi ac mae posib eu hatgyweirio a'u huwchraddio, ni roddir caniatâd cynllunio i ailosod deunyddiau eraill o fewn ardal Erthygl 4 (2).

Drysau

80. Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a gwydro hefyd yn berthnasol i ddrysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw ac atgyweirio drysau pren traddodiadol. Pan fo angen, dylai drysau newydd ddilyn arddull y drws gwreiddiol os yw'n hysbys, neu dylai gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol, ar y cyfan, yn fwy amrywiol na ffenestri, mae rhai egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Nid oedd drysau ffrynt wedi'u gwydro fel arfer, pan oedd ganddynt ffenestri linter uwchlaw, er bod gan eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd diweddarach wydr barugog a/neu addurnedig yn lle'r paneli uchaf. Rhaid cadw, atgyweirio a chynnal a chadw ffenestri linter, casinau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae cynllun ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â chynllun ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi handlenni lifer allanol.
81. O fewn ardal Erthygl 4 (2), nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweirio neu ailosod drws hanesyddol sydd union yr un fath â'r hen un a lle mae deiliaid tai yn dymuno atgynhyrchu drysau anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y drysau yn dyddio cyn y dynodiad ardal gadwraeth a bod union atgynrychiadau yn cael eu cynnig.

Portshys a chanopïau

82. Dylai portshys a chanopïau adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopïau gwastad, neu gyda bracedi neu doeon ar oledd. Dylid atgyweirio neu adfer casinau drws mwy addurnedig.

Mynediad i bobl anabl

83. Mae angen darparu mynediad i bobl anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Mae bob amser yn bwysig sicrhau y caiff y rheoliadau a'r canllawiau ategol eu dehongli'n gywir ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r math hwn, dylid gwneud hynny mewn modd sensitif a gan ystyried egwyddorion cyffredinol

mesuriadau, cynllun, deunyddiau a chreffftwaith sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan.

Gwaith pwyntio a gorffeniadau waliau

84. Mae'n well defnyddio mortar calch yn hytrach na mortar sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau cyfwyneb, cilannog neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r mortar yn ymestyn dros y brics neu'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd i ddisodli mortar calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod. Mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad llyfn - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylid gorffen rendr sment mewn lliw pastel.
85. Mae hongian llechi yn arfer traddodiadol ar gyfer gweddau agored (sydd hefyd yn gyfle i inswleiddio pan fyddant newydd eu hadeiladu). Rydym yn annog pobl i beidio â chael gwared â llechi sy'n hongian.

Blaenau siopau ac arwyddion

86. Mae'r blaen siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa ffenestri, gan gynnwys y ffasgia uwchben, y rhan o dan y ffenestr a'r pilastrau bob ochr. Dylai mesuriadau pob rhan greu cyfansoddiad cytbwys. Gall y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr yn dibynnu ar led yr eiddo. Dylid cadw ac atgyweirio stepiau addurnedig mewn drysau cilfachog. Dylai'r ffasgiâu gael eu gorffen ar y brig gyda mowldio cornis a'i gynnwys ar bob ochr gan ysgwydd neu gorbél, sy'n gweithredu fel capan colofn i'r pilastrau. Bydd y defnydd o deils ar y rhan o dan y ffenestri yn helpu i wrthsefyll dŵr ac yn rhoi manylyn traddodiadol.
87. Dylid cadw blaenau siopau traddodiadol sy'n bodoli, neu elfennau sydd wedi goroesi, a'u hatgyweirio lle bynnag y bo'n bosibl. Gellir cuddio nodweddion gwreiddiol o dan arwynebau diweddarach. Pan fydd blaenau siopau wedi'u colli'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig o'u cynllun gwreiddiol yn bodoli, bydd atgynhyrchiad manwl yn hynod briodol. Lle nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, gellid defnyddio cynllun modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol. Pan fydd adeiladau ar wahân wedi'u cyfuno i greu un uned, dylai pob adeilad gael ei wyneb unigryw ei hun er mwyn cynnal rhythm a mesuriadau'r strydlun. Ni ddylai'r un ffasgia gario dros y ddau ffasâd. Dylid isrannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal mesuriadau nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun. Dylai llythrennau a dyluniad graffig fod yn gymesur, yn briodol i'r cyd-destun ac nid yn generig.
88. Mae Canllaw Dylunio Blaenau Siopau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn darparu arweiniad manwl ar ddylunio blaenau siopau ac arwyddion.

Lliw

89. Mae lliw hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai'r rendr fod fel rheol mewn lliwiau pastel a dylai pren wedi'i baentio fod yn llwydwyn gyda lliwiau cryf fel arfer wedi'u cadw ar gyfer drysau ffrynt, rheiliau a blaenau siopau.

Muriau terfyn a rheiliau

90. Mae llawer o strydoedd ac eiddo preswyl yn cadw cyrtiau muriog neu rheiliog, sy'n hanfodol i gymeriad arbennig yr ardal gadwraeth. Mae angen rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw muriau terfyn a rheiliau yn cael eu tynnu i ganiatáu parcio ac nad ydynt yn cael eu disodli'n amhriodol.
91. Yn gyffredinol dylid paentio gwaith haearn mewn lliwiau tywyll neu i gyd-fynd â 'lifrai' y tŷ. Mae'n well osgoi'r 'du ac aur treftadaeth' hollbresennol.
92. Mae gerddi ffrynt yn amwynder lleol pwysig. Maent yn cyfoethogi'r ardal gadwraeth yn weledol a gallant ddarparu draeniad cynaliadwy.

Datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth

93. Yn gyffredinol, pan gynigir datblygiadau a/neu estyniadau newydd, mae'n bwysig eu bod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio cadarn, yn ogystal â manylion apelgar mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Mae'n arbennig o bwysig osgoi atebion safonol pa un ai mewn cyd-destun domestig neu fasnachol. Dylai pob math o ddatblygiad newydd o fewn yr Ardal Gadwraeth:
- Gadw ac atgyfnerthu 'nodweddion unigryw lleol' a chymeriad yr ardal gadwraeth, yn cynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, ffiniau lleiniau a thriniaethau ffiniau;
 - Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriad datblygiadau presennol;
 - Ymateb i rythm a mynegiad penodol israniadau'r strydlun a'r adeiladau unigol o ran baeau ac agoriadau sy'n ymyrryd ar y ffasâd;
 - Atgyfnerthu cymeriad a graen unigryw ardal gymeriad benodol yr ardal gadwraeth, trwy ddealltwriaeth wybodus o'i ffurfiau adeiladu a'i harddulliau, nodweddion a deunyddiau;
 - Parchu maint a chasgliad adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol nad yw datblygiad newydd yn anghyson â'r adeiladau presennol oherwydd ei uchder, lefelau llawr, maint ffenestri a drysau, casgliadau cyffredinol a thoeau;
 - Cynnal golygfeydd a fistâu allweddol i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth; a
 - Lle bo modd, lleihau effaith weledol cerbydau sydd wedi'u parcio a'r llefydd parcio a ddarperir ar y strydlun a gosodiad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.
94. Lle y caiff datblygiadau newydd eu cynnig ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw'r ardal gadwraeth, yn hytrach nag ynddi, bydd cyn bwysiced cymryd gofal ac ystyried effaith y cynllun arfaethedig ar osodiad yr ardal gadwraeth. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw penodol i'r canlynol:
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn yr un maint, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu nodweddion pensaernïol nodedig y cyd-destun uniongyrchol;
 - Ystyried effaith datblygiadau newydd ar olygfeydd a fistâu allweddol;
95. Efallai y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd da yn briodol yn yr ardal gadwraeth, y peth pwysig yw osgoi datblygiad anghyson, gradd isel, anghynnwl a llachar.
96. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am rai mathau o ddatblygiad gynnwys datganiad dylunio a mynediad. Mae hyn yn cynnwys yr holl

ddatblygiadau mawr, ac mewn perthynas â datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth, datblygiadau ar gyfer un neu fwy o anheddau neu ar gyfer darparu adeiladau ag arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr neu fwy. Mae canllawiau manwl pellach ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad i'w gweld yn nogfen Llywodraeth Cymru/Comisiwn Dylunio Cymru [Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut.](#)

97. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i rai ceisiadau (Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth) gynnwys Datganiad Effaith ar Dreftadaeth (HIS). Nod hyn yw sicrhau bod arwyddocâd yr ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion. Mae'r HIS yn cael ei lywio gan y broses o gynnal Asesiad Effaith ar Dreftadaeth (HIA), sydd â'r nod o gynorthwyo gyda dylunio datblygiad priodol trwy asesu'r effaith ar arwyddocâd. Darperir canllawiau manwl pellach ar y broses HIA yng nghanllaw arfer gorau CADW - [Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru.](#)

Dymchwel

98. Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeilad gyda chyfanswm cynnwys ciwbig sy'n fwy na 115 metr ciwbig ac i ddymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n fwy nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu fwy na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth.
99. Mae dymchwel adeilad rhestredig (neu unrhyw ran ohono) heb gydsyniad adeilad rhestredig yn drosedd.

Dysglau Lloeren ac Antennau.

100. Ni chaniateir gosodiadau o'r fath os ydynt yn gorwedd ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu priffordd neu sy'n weladwy o briffordd. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys darparu dysglau/antennau mewn lleoliadau o'r fath yn cael eu gwrthwynebu.

Safonau Dylunio Priffyrdd

101. Mae'r rhain yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth a sensitifrwydd dylunio mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Tref i wneud y defnydd gorau o safonau dylunio, i fod yn hyblyg lle bo hynny'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol lle mae adnoddau ariannol yn caniatáu. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau.

Tir y Cyhoedd

102. Er bod cadwraeth a gwella eiddo preifat yn yr ardal gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (polion, ceblau, arwyddion, meinciau, biniau, goleuadau ac ati) yn cael effaith sylweddol ar rinweddau arbennig yr ardal. Wrth weithio gyda'r asiantaethau perthnasol, tynnir sylw at rinweddau arbennig yr ardal gadwraeth wrth ddarparu seilwaith priodol.

Ardaloedd Agored Hanfodol

103. Amlygir sawl ardal felly yn yr arfarniad, ardaloedd gan gynnwys gerddi bach preifat a gerddi cyhoeddus, y mynwentydd hen a newydd ac ardal yr harbwr. Mae'r lleoedd rhwng adeiladau yn hanfodol i'w lleoliad, yn ogystal ag i les y cyhoedd. Mae'r cyfle i ddatblygu yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig ar y cyfan a bydd yn cael ei wrthsefyll oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae rhai ardaloedd yn cynnig cyfle i wella.

Coed a gwrychoedd

104. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i amddiffyn coed, gwrychoedd a choetiroedd trwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.
105. Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

Rheoli a Gorfodi

106. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio presennol i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau gwaith brys a hysbysiadau atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau heb eu rhestru. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu ar eiddo preswyl, gyda rhai cyfyngiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Trwy ddefnyddio 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2)', gellir cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir ymhellach, ar gyfer datblygiadau preswyl. Ar hyn o bryd, mae cyfarwyddyd ar waith ar draws Ardal Cymeriad 1 a 2.
107. Arolygir yr Ardal Gadwraeth bob tair blynedd i sefydlu a oes bygythiad gwirioneddol a phenodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth, a oes angen

gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar draws yr Ardal Gadwraeth gyfan, a pha mor effeithiol yw'r darpariaethau'r ddogfen hon.

Atodiad A: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol

1. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diffinio o dan adrannau 91 (gan gyfeirio at adran 69) [Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990](#) fel:
 2. *“ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad”.*
 3. Mae adran 69 o'r Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi'r meysydd hyn, ac o dan adran 71 o'r Ddeddf, o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd hyn. Mae Adran 72 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi *'sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno'*.
 4. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn rheoli dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth trwy ei gwneud yn ofynnol i gael Caniatâd Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ddymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ddarostyngedig i rai eithriadau a wneir o dan adran 75 o'r Ddeddf. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i adeiladau rhestredig, Henebion Rhestredig (SAMs) nac i ddymchwel adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig, gan fod gwaith o'r fath yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân.
 5. Mae Deddf [yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2016](#) yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol yn gadarnhaol, megis ei gwneud yn ofynnol bod pob cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ac am Gydsyniad Ardal Gadwraeth yn cynnwys Datganiadau Effaith ar Dreftadaeth (gweler adran 6). Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a'i ddiweddarau.
 6. Mae [Polisi Cynllunio Cymru \(PCC\) \(11^{eg} Argraffiad\)](#) yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol ac sy'n cydnabod yr angen i'r system gynllunio amddiffyn, gwarchod a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys ystyried eu lleoliadau. Pwysleisir yr angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol. Mae'n egluro bod *amddiffyn, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol... wrth ddylunio cynigion newydd.*
 7. Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth yw *diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.* Mae'r polisi hefyd yn nodi *'dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella*

cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad' ac mae'n gosod 'rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu, gan gynnwys hysbysebion, a fyddai'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...'. Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae datblygiad yn ddymunol ar sail budd y cyhoedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn esbonio y gall Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli gynorthwyo gyda swyddogaethau rheoli datblygu ac y dylai penderfyniadau dylunio sy'n ymwneud â chymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun.

8. Mae [**Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 24**](#) yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol manwl pellach sy'n ymwneud â phwnc yr amgylchedd hanesyddol ac, yn benodol, sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol trwy'r broses gynllunio. Mae'r adran ar Ardaloedd Cadwraeth yn ymdrin ag agweddau gan gynnwys eu dynodiad a'u hadolygiad, Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth, Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth, Cydsyniad Ardal Gadwraeth, Rheoli Hysbysebu, Coed, Gorfodi ac Apeliadau. Mae diffinio cymeriad pob ardal gadwraeth a nodi polisïau ar gyfer cadw a gwella trwy Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli, yn y drefn honno, yn cael eu hystyried yn ffyrdd o ddarparu sylfaen gadarnach ar gyfer polisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu.
9. Mae [**Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 12**](#) yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n gysylltiedig â dylunio a'i nod yw hwyluso dyluniad da a chynaliadwyedd trwy'r system gynllunio. Mae'n nodi buddion defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad fel offer cyfathrebu i amlinellu sut mae dyluniad y cynnig datblygu wedi'i ystyried o'r cychwyn cyntaf a sut mae amcanion dylunio da wedi llywio hyn. O ran yr amgylchedd hanesyddol a'r Ardaloedd Cadwraeth, yn benodol, mae'n egluro y bydd angen mwy o gyfarwyddyd a chynghor gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar sut y gellir darparu ar gyfer datblygiad newydd a rheoli newid mewn ardaloedd o gymeriad arbennig.
10. Mae CADW wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau arfer gorau i gefnogi'r newidiadau i ddeddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf perthnasol o'r rhain yw [**Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru**](#), sydd â'r nod o sicrhau dull cyson o ddynodi, gwerthuso a rheoli Ardaloedd Cadwraeth. O ran arfarniadau, mae'r rhain yn cael eu gweld fel offer hanfodol ar gyfer rheoli ardaloedd sydd eisoes yn bodoli yn gadarnhaol. Mae'n egluro eu pwrpas, y potensial i weithio gyda chymunedau lleol, cyrff trydydd sector ac ymddiriedolaethau archaeolegol, cofnodi adeiladau ac elfennau eraill, ffynonellau gwybodaeth, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar gynnwys. Mae ein canllawiau arfer gorau ar faterion cysylltiedig yn cynnwys [**Rheoli Nodweddion Hanesyddol Cymru**](#), [**Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru a Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru**](#). Yn 2011 cyhoeddodd Cadw hefyd: [**Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy**](#).

